CANOLFAN CYMRAEG I OEDOLION GOGLEDD CYMRU
WELSH FOR ADULTS CENTRE NORTH WALES

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Grŵp ddydd Mercher, Mawrth 28 am 10.30yb yn Neuadd Powis, Prifysgol Cymru, Bangor.

Presennol: Meri Huws (Cadeirydd); Ifor Gruffydd (Canolfan Cymraeg i Oedolion Gogledd Cymru); Iwan Davies (Ysgrifennydd); Dr Haydn Edwards (Coleg Menai); Fred Cunningham (Coleg Llysfasi); Gwenan Owain (Coleg Llysfasi); Jackie Doodson (Coleg Llandrillo Cymru); Richard Lewis (Coleg Garddwriaeth Cymru); Ian Dickson (Coleg Glannau Dyfrdwy); Elwyn Hughes (Prifysgol Cymru, Bangor); Verona Pritchard Jones (Popeth Cymraeg); Jim O'Rourke (Nant Gwrtheyrn); Steve Smith (Coleg Iâl)

Ymddiheuriadau: Huw Evans (Coleg Llandrillo Cymru); Rhian McCarthy (Coleg Llandrillo Cymru); Yr Athro Michael Scott (NEWI); Dr Ian Rees (Coleg Meirion Dwyfor)

Gweithredu

1. CROESO A RHAGARWEINIAD

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd

2. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 28 TACHWEDD 2006

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2006 yn gywir.

3. MATERION YN CODI

<u>Swyddog y Dysgwyr</u>

- Adroddodd IG ei fod wedi methu dwyn perswâd ar Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyllido swydd Swyddog Dysgwyr am 15 mis o hyn ymlaen. Awgrymwyd y dylem edrych ar y posibilrwydd o benodi swyddog parhaol ar gyfer yr eisteddfodau yn y gogledd. **IG**

<u>Ymchwil Farchnata</u>

- Mae'r Ymchwil Farchnata yn mynd yn ei blaen, bydd cwmni Beaufort Research yn gyfrifol am y gwaith ymchwil. Bydd adroddiad drafft yn cael ei dderbyn gan Beaufort Research ym

mis Mai, a'r bwriad yw defnyddio canfyddiadau allweddol yn y Cynllun Strategol. Nodwyd fod gan rai darparwyr ganlyniadau gwaith ymchwil eu hunain y gellid manteisio arno. IG i gysylltu â'r darparwyr am hyn. **IG**

Cynllun Strategol

- Eglurodd IG bod y Cynllun Strategol wedi ei ail gyflwyno a'i gymeradwyo. Mae'r cynllun fodd bynnag, yn ddogfen waith 'fyw' a bydd yn cael ei chwblhau fel rhan o'r broses o gyflwyno Cynllun Strategol 3 blynedd ym mis Mai 2007.

Hyfforddiant

- Bydd modiwl Cymraeg i Oedolion yn cael ei gynnig yn Ysgol y Gymraeg, PCB yn ystod 2007/08. Gobeithir cynnal trafodaethau hefo'r Ysgol Addysg, PCB yn fuan er mwyn cynnig modiwl fel rhan o'r cwrs BA (Add) hefyd. Cynigwyd y dylid cynnwys maes CIO fel rhan o gwricwlwm TAR. Hyn i'w drafod yn y cyfarfod nesaf. **IG**
- Bydd y cymhwyster Cymraeg i Oedolion newydd yn dechrau Hydref 2007 gyda 10-12 o lefydd. Y bwriad eleni yw cynnig un lle i bob un o ddarparwyr y gogledd.

4. CYTUNDEBU

(i) Cytundebu Trydydd Parti

- Mae'r Ganolfan wedi derbyn arweiniad cyffredinol gan Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gynnwys y cytundebau. ***Bydd IG yn drafftio cytundeb ac yn ymgynghori gyda phob darparwr yn unigol yn ystod mis Mai/Mehefin.*** **IG**
- Croesawyd cynnig Coleg Menai i gydweithio ar y cytundeb drafft.
- Ni fydd y Ganolfan yn codi ffi reolaethol ar y darparwyr oherwydd bod y Ganolfan wedi ei hariannu'n ganolog gan AADGOS hyd at fis Gorffennaf 2008. Nodwyd fod y Canolfannau eraill yng Nghymru yn codi ffioedd rheoli.
- Eglurodd IG mai bwriad AADGOS yn 2007/08 yw cyllido ar sail dyraniadau 2005/06 a bydd y ddarpariaeth yn cael ei thrafod yn fanwl gyda phob darparwr.
- Bydd angen cylchredeg gwybodaeth i bob aelod am sut y lluniwyd y dyraniad ariannol. ***IG i gylchredeg y wybodaeth.*** **IG**
- Nododd IG y byddai'n disgwyl i ddarparwyr gynllunio eu darpariaeth ar gyfer 2007/08 ar sail darpariaeth 2006/07 ac eithrio lle bo trafodaethau wedi bod hefo'r Ganolfan i newid elfennau penodol o'r ddarpariaeth. Bydd y gwaith o adolygu'r ddarpariaeth yn fanwl yn digwydd dros y 8 i 10mis nesaf gyda golwg ar ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer 2008/09. **IG**

(iii) Darparwyr y Gogledd

Bydd IG yn trefnu cyfarfod gydag Ann Jenkins, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Penneithiaid Coleg Glannau Dyfrdwy, Coleg Garddwriaeth Cymru, Coleg Llandrillo Cymru a Popeth Cymraeg i drafod y ddarpariaeth unigryw yng ngogledd yr hen Glwyd.

5. RHEOLI ANSAWDD

Cafwyd cytundeb mewn egwyddor gan y darparwyr i'r adroddiad ar arsylwi ond gyda'r amodau canlynol:-

- Cyfeirio'r mater i sylw'r Is-banel Ansawdd, a fydd yn cynnwys arbenigwyr rheoli ansawdd yn ogystal â CIO.
- Staff y Ganolfan i fanteisio ar gynnig Coleg Llandrillo Cymru i gydweithio ar ddogfennau drafft cyn eu cyflwyno i'r Is-banel.
- Gwahodd aelod o Estyn i fod yn aelod rheolaidd o'r Is-banel.

6. HYFFORDDIANT

Diolchodd IG i Haydn Hughes, Swyddog Hyfforddi ac Ansawdd am baratoi'r adroddiad. Nodwyd bydd y tiwtoriaid yn derbyn lleihad mewn tâl o hyn ymlaen ar gyfer hyfforddiant. Oherwydd y gwahaniaeth barn ymysg aelodau am lefel y tâl hyfforddi penderfynwyd adolygu'r ffioedd ar gyfer flwyddyn academaidd 2007/08 yng nghyfarfod nesaf y Grŵp a hynny yng nghyd-destun y gyllideb hyfforddi a fydd ar gael ar gyfer y flwyddyn honno.

7. DYSGU ANFFURFIOL

Mae Bwrdd yr Iaith wedi adolygu'r sefyllfa efo Dysgu Anffurfiol, mae hyn bellach yng ngofal y 6 chanolfan. Mae'r Ganolfan wedi cyflwyno cais i Fwrdd yr Iaith i ymchwilio i agweddau siaradwyr Cymraeg at ddysgwyr a sut i wella'r gefnogaeth sydd ar gael gan siaradwyr Cymraeg. Y gobaith yw cynnal y gwaith ymchwil Gorffennaf - Chwefror 2008 a phenodi Swyddog Ymchwil a fydd yn arwain gweithgareddau yn 2008/09. Bydd y Ganolfan yn derbyn adborth i'w chais gan Fwrdd yr Iaith o fewn y 3 wythnos nesaf.

8. MAES ARWEINIOL

Eglurodd IG bod pob Canolfan yn gyfrifol am thema arbenigol. Bydd Canolfan y Gogledd yn canolbwyntio ar Cwricwlwm Dwys. Y gobaith yw penodi arbenigwr/swyddog i arwain ar faes y cwricwlwm dwys, ond bydd gofyn i'r Ganolfan gystadlu am y tendr hwn. ***Awgrymodd y darparwyr y byddai'n syniad cael amlinelliad o waith arweiniol y canolfannau eraill a chytunwyd y byddai'r Ganolfan yn adrodd ar hyn yn y dyfodol.*** **IG**

9. MARCHNATA

Cafwyd crynodeb o'r sefyllfa ddiweddaraf –

- Lansiad swyddogol yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
- Datblygiad y wefan a brand 'learnCymraeg'
- Prosbectws rhyngweithiol ar y wefan.
- Taflen wybodaeth am y Ganolfan.
- Hysbysbeion ardal o'r cyrsiau a gynigir. Trafodwyd y syniad o efallai cael atodiad yn y Daily Post, yn ogystal -
- I hyrwyddo cyrsiau'r gogledd.

Byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau neu awgrymiadau gan y darparwyr.

- Bydd angen creu cynllun marchnata am y 3 blynedd nesaf i Llywodraeth Cynulliad Cymru a bydd hwn yn destun ysytyriaeth yn y cyfarfod nesaf.
- Bydd angen trefnu cyfarfod arbennig o'r Grwp Strategol yn ystod y flwyddyn nesaf i hyrwyddo marchnata.

10. PANEL DARPARWYR (CYFARFOD 9 MAWRTH 2007)

Cafwyd adroddiad gan EH, Cadeirydd y Panel Darparwyr, o'r cyfarfod 9 Mawrth 2007. Y prif faterion

- Bydd angen egluro beth fydd gweithdrefnau'r Ganolfan o ran cydgynllunio rhaglenni'r gwahanol ddarparwyr: sut yn union bydd y Ganolfan yn sicrhau llwybrau dilyniant priodol ac yn osgoi dyblygu? Beth fydd rôl y Swyddogion Datblygu yn y broses? Pa fforwm fydd ar gael i drafod unrhyw faterion sy'n codi?
- Er mwyn sicrhau'r cyhoeddusrwydd mwyaf effeithiol ac osgoi dyblygu, dylai'r Ganolfan gydlynu gwaith o osod hysbysebion cyrsiau yn y wasg. Bydd hyn yn fodd o gael hysbysebion llawer mwy sylweddol a thrawiadol nag y gall darparwyr unigol eu fforddio.
- Sicrhau bod y dewis o gyrsiau o fewn y dalgylch yn gwbl eglur i'r darpar-ddysgwyr trwy restru darpariaeth pob un o'r darparwyr yn glir mewn cyhoeddiadau ac ar y ŵe.
- Bydd y darparwyr unigol yn parhau i gynhyrchu pamffledi a phosteri tra bydd AADGOS yn trefnu ymgyrch genedlaethol gyffredinol i hybu dysgu Cymraeg, felly byddai hysbysebion y Ganolfan, ynghyd a'r wefan yn ffitio'n daclus yn y canol mewn modd effeithiol iawn.

11. U.F.A.

Cyhoeddoedd J O'R mai David Hedley Williams sydd wedi ei apwyntio fel Uwch Diwtor, Nant Gwrtheyrn a bod Ifan Prys wedi ei apwyntio fel Tiwtor Cynorthwyol.

12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bore Gwener, 25 Mai 2007, Ystafell Gyfarfod, Ysgol Gydol Oes, Ffordd Richard Davies, Parc Busnes Llanelwy am 10.30yb.